

Bwrdd Cynghori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân

4 Gorffennaf 2019, Swyddfa Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, CF10 3NQ

Cofnodion

Aelodau

Michael Prior (MP) Cadeirydd Annibynnol

Cynrychiolwyr Cyflogwyr

Y Cyng. Claire Mills (CM) Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Y Cyng. Sue Pickering (SP) Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Cynrychiolwyr Cyflogeion

Sean Starbuck (SS) Undeb y Brigadau Tân
Ade Robinson (AR) Cymdeithas y Swyddogion Tân

Swyddogion yn bresennol

Kevin Jones (KJ) Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Arsylwyr

Mark Miles (MM) Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Chris Barton (CB) Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Cerith Griffiths (CG) Undeb y Brigadau Tân

Swyddogion Llywodraeth Cymru (Ysgrifenyddiaeth)

Kerry Citric (KC) Llywodraeth Cymru

Cerys Myers (CLM) Llywodraeth Cymru

Natalie Spiller (NS) Llywodraeth Cymru

Trwy Gyswllt Fideo

Richie Fairhead Cymdeithas yr Arweinwyr Tân
Helen MacArthur Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Clair Alcock Cymdeithas Llywodraeth Leol

Ymddiheuriadau

Y Cyng. Bryan Apsley Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Alison Reed Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Adrian Hughes Cymdeithas Gwasanaethau Tân ac Achub

1. EITEM 1 YR AGENDA – CROESO A CHYFLWYNIADAU

- 1.1 Croesawodd MP bawb i'r cyfarfod a rhoddwyd ymddiheuriadau ar ran Alison Reed ac Adrian Hughes. Croesawyd Cerith Griffiths fel aelod newydd ar ran Undeb y Brigadau Tân (yn amodol ar ei benodi gan Weinidog Cymru), gan ddisodli Grant Mayos. Roedd MP yn awyddus i fynegi ei ddiolch i Grant Mayos am ei gyfraniad at SABW. Nid oedd Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol Awdurdodau Tân ac Achub wedi effeithio ar gynrychiolaeth aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub.
- 1.2 Siaradodd MP am gysondeb presenoldeb aelodau a chydabu'r diffyg cynrychiolaeth o'r Gymdeithas Gwasanaethau Tân ac Achub. Dywedodd MP y byddai'n trafod y mater gydag Adrian Hughes.
- 1.3 Nid oedd Helen MacArthur, Richard Fairhead a Clair Alcock yn gallu ymuno â'r cyfarfod trwy gyfleuster telegynadleda oherwydd problemau gyda thechnoleg.
- 1.4 Cadarnhaodd yr aelodau nad oedd ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau i'w ddatgan.

2. EITEM 2 YR AGENDA – COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

- 2.1 Cyfeiriodd MP at gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 3 Ebrill a gwahoddodd yr aelodau i gytuno ar gywirdeb y cofnodion. Nodwyd bod nifer o ymddiheuriadau wedi'u hepgor o'r rhestr mynychwyr. Ni wnaed unrhyw sylwadau pellach a chytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir, yn amodol ar y mân newid hwn.

MATERION YN CODI

- 2.2 Rhoddwyd diweddariad ar gamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf :-

- a) Roedd aelodau wedi mynegi pryderon nad oedd lefel cyllid grant Trysorlys EM ar gyfer 2019-20 wedi talu cost lawn y cynnydd yng nghyfradd cyfraniadau'r cyflogwyr. Er eu bod yn cydnabod bod lefel y cyllid wedi'i chadarnhau ac na fyddai'n cael ei newid mwyach, roeddent wedi gofyn am ragor o fanylion am gyfrifo'r cynnydd cyfartalog yng nghyfraddau cyfraniadau'r cyflogwyr o gymharu â'r gyfradd cyfraniadau unigol ar gyfer pob cynllun i wella'u dealltwriaeth o'r ffigurau. Roedd swyddogion wedi gofyn i GAD am yr eglurhad hwn ar sail cwestiynau a godwyd gan Awdurdodau Tân ac Achub ac wedi rhannu ymateb GAD gyda chynrychiolwyr y cyflogwyr. Byddai'r diweddariad yn cael ei ddisbarthu i SABW yn ehangach, er gwybodaeth iddynt.

CAM GWEITHREDU : Yr Ysgrifenyddiaeth i ddisbarthu i SABW ymateb GAD ar gyfrifo'r cynnydd cyfartalog yng nghyfraddau cyfraniadau'r cyflogwyr o gymharu â'r gyfradd cyfraniadau unigol.

Roedd cyfradd gyfartalog cyflogwyr yn is na'r cyfraddau unigol oherwydd bod y cyfartaledd yn cwmpasu cyfnod prisio pedair blynedd, 2019-23. Erbyn

2020-23, byddai defnyddio'r gyfradd cyfraniadau cyfartalog yn debygol o arwain at gyfrifiad uwch o gostau na chyfraddau cynlluniau unigol, yn hytrach na bod yn is, fel yr oedd ar gyfer 2019-20. Pe bai cyllid ar gyfer y dyfodol yn cael ei sicrhau gan Drysorlys EM, rhagwelwyd y byddai cyfrifiad y grant yn parhau i gael ei seilio ar gyfraddau cyfartalog y cyflogwr, gan felly ddiddymu unrhyw ddiffyg cychwynnol o 2019-20.

- b) Yn ogystal, roedd aelodau wedi codi pryderon am gyllid i dalu am y cynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwyr ar gyfer 2020-21 ymlaen, yr oedd yr ysgrifenyddiaeth wedi'i godi gyda chydweithwyr Cyllid Llywodraeth Cymru. Codwyd y pryderon hyn hefyd mewn cyfarfod rhwng y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol a'r Prif Swyddogion Tân a Chadeiryddion Awdurdodau Tân ac Achub.

Rhoddodd yr ysgrifenyddiaeth wybod bod diffyg cyffredinol wedi bod yn narpariaeth cyllid SCAPE i Gymru. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [Datganiad Ysgrifenedig](#) a gyfeiriodd at lythyr ar y cyd gan Weinidogion Cyllid Cymru a'r Alban ac Ysgrifennydd Parhaol Adran Gyllid Gogledd Iwerddon at Brif Ysgrifennydd Trysorlys EM. Mynegodd y llythyr bryderon am y broses brisio gyfan, gan gynnwys y ffaith nad oedd cyllid 2019-20 yn talu costau SCAPE i'r gweinyddiaethau datganoledig yn llawn, a'r angen am sicrwydd cynnar am gyllid ar gyfer y dyfodol, a galwont am gyfarfod brys i drafod y materion hyn, gan ddefnyddio mecanweithiau ffurfiol pe bai angen.

Nodwyd bod Awdurdodau Tân ac Achub eisoes yn datblygu eu cynlluniau cyllideb ar gyfer 2020-21, ac roedd angen eglurder ynghylch cyllid cyn gynted â phosibl fel na fyddai'r problemau sylweddol a ddigwyddodd wrth osod cyllidebau, oherwydd yr hysbysiad hwyr am gyllid 2019-20, yn digwydd eto. Mynegodd cynrychiolwyr y cyflogeion eu cefnogaeth tuag at y rhwystredigaeth a deimlai'r Awdurdodau Tân ac Achub. Serch hynny, nid oedd yr ysgrifenyddiaeth mewn sefyllfa i leddfu'r pryderon hyn.

- c) Roedd diweddariad arall ar Ddata'r Cynllun yn ogystal â diweddariadau ar Gyflog Pensiynadwy a Byrddau Pensiwn Lleol yn rhan o'r agenda.

3. EITEM 3 YR AGENDA – CYFLOG PENSIYNADWY

3.1 Esboniodd MP fod y Gymdeithas Llywodraeth Leol, yn dilyn [dyfarniad](#) yr Uchel Lys ar gyflog pensiynadwy diffoddwyr tân, wedi paratoi canllawiau ar y dyfarniad ar ffurf [taflen ffeithiau](#) i Awdurdodau Tân ac Achub. Byddai angen i bob Awdurdod Tân ac Achub ystyried sut roedd y dyfarniad yn berthnasol i'w trefniadau lleol nhw.

3.2 Roedd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi gweithredu'r penderfyniadau fel y'u gosodwyd yn y dyfarniad. Roedd yr Awdurdod Tân ac Achub bellach yn cynnal trafodaeth gydag Undeb y Brigadau Tân ar sut dylai'r dyfarniad ar yr achosion unigol gael ei gymhwyso i gynlluniau pensiwn eraill

diffoddwyr tân. Roedd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn ystyried effaith y dyfarniad, yn enwedig mewn perthynas â Chwilio ac Achub Trefol.

3.3 Roedd yr Awdurdodau Tân ac Achub wedi cynnwys cyflog pensiynadwy ar agenda'r SAB gyda'r nod o drafod ymagwedd gyson ledled Cymru. Yn dilyn y dyfarniad a thaflen ffeithiau'r Gymdeithas Llywodraeth Leol, roedd aelodau'n fodlon bellach iddo gael ei ddileu o agendâu yn y dyfodol.

3.4 Nododd aelodau fod gweithdy ar gyflog pensiynadwy wedi'i drefnu ar gyfer 18 Gorffennaf 2019.

4. EITEM 4 YR AGENDA – DATA'R CYNLLUN (FPSABW(19)04)

4.1 Roedd FPSABW wedi darparu tair set o ffigurau i aelodau, sef ffigurau incwm a gwariant cynllun cronfa bensiwn yr Awdurdodau Tân ac Achub, arenillion cyfraddau cyfraniadau'r cyflogeion a'r data diweddaraf ar adael cynlluniau.

Costau'r Cynllun

4.2 Roedd y tabl wedi'i ddiweddarau i gynnwys data incwm a gwariant ar gyfer 2018-19. Roedd ffigurau gwariant yn amrywio o un flwyddyn i'r llall, yn dibynnu ar nifer yr ymddeoliadau o'r cynllun a nifer y cyfandaliadau a dalwyd o fewn blwyddyn benodol.

4.3 Nododd yr aelodau fod y gwahaniaeth mewn incwm a gwariant yn cael ei ddarparu i Awdurdodau Tân ac Achub trwy grant atodol gan Lywodraeth Cymru, wedi'i ariannu gan wariant blynyddol a reolir gan Drysorlys EM. Roedd y gwahaniaeth rhwng incwm a gwariant yn debygol o ostwng o 2019-20 ymlaen o ganlyniad i'r cynnydd yng nghyfraddau cyfraniadau'r cyflogwyr, a roddwyd ar waith yn 2019.

Cyfraddau Cyfraniadau'r Cyflogeion: Arenillion

4.4 Roedd data'r arenillion llawn ar gyfer y cyfnod prisio pedair blynedd o Ebrill 2015 ymlaen wedi'i gyfrifo fel 13.16% o gyflog pensiynadwy, o gymharu ag arenillion gofynnol o 13.2%.

4.5 Nododd aelodau fod GAD wedi defnyddio arenillion tybiedig o 13% ar gyfer 2019-23 ym mhrisiad 2016. Roedd Trysorlys EM wedi derbyn hyn er bod dyluniad gwreiddiol y cynllun yn gofyn am arenillion o 13.2%. Byddai SAB yn parhau i fonitro'r arenillion yn flynyddol.

Data Gadael

4.6 Roedd y data a gyflwynwyd i aelodau'n cynnwys y data gadael cyflawn ar gyfer blynyddoedd ariannol 2017-18 a 2018-19. Ar sail y wybodaeth a gasglwyd, roedd yn ymddangos bod y mwyafrif wedi gadael o fewn y 3 mis cyntaf, yn ennill rhwng £20 mil a £30 mil, a rhwng 25 a 35 oed. Nodwyd bod nifer fach o ymadawiadau'n gysylltiedig ag aelodau hŷn a/neu aelodau ar gyflog uwch.

Roedd data ar y rhesymau dros adael yn gyfyngedig ond lle y datgelwyd rheswm, roedd yn ymddangos bod nifer fach o aelodau wedi dewis gadael am resymau ariannol neu oherwydd bod y swydd yn un dros dro.

4.7 Roedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o drafodaethau parhaus ynghylch cynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus yn ehangach, lle'r oedd aelodau'n dewis ymdddeol neu adael cynlluniau i osgoi goblygiadau treth o ran lwfansau blynyddol. Roedd hyn yn broblem benodol i gynllun y GIG; roedd cydweithwyr pensiwn y GIG yn cynnal trafodaethau â Thrysorlys EM ar ddatrysiad i enillwyr cyflogau uchel (uwch feddygon a meddygon teulu). Roedd ystyriaethau'n cynnwys opsiwn i ostwng cyfraniadau pensiwn yn debyg i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nodwyd bod Trysorlys Ei Mawrhydi wedi cyngori'n flaenorol, fel rhan o'r broses Brisio, y byddai angen i gynlluniau ariannu opsiwn felly eu hunain ac na fyddai'r grant atodol yn ei ariannu.

4.8 Gwnaed y pwyntiau canlynol gan aelodau:-

- Nid ystyried datrysiad i enillwyr cyflogau uchel ddylai fod yr unig ystyriaeth. Efallai nad yw lwfansau blynyddol yn effeithio ar enillwyr cyflogau isel, ond gallent gael trafferth talu'r cyfraniadau;
- Cadarnhaodd yr Awdurdodau Tân ac Achub a'r Undebau fod sgysiau'n cael eu cynnal yn rheolaidd gydag aelodau i'w hannog i aros yn y cynllun pensiwn;
- Roedd yr Awdurdodau Tân ac Achub yn cynnig Taliadau Cynllun Gwirfoddol fel opsiwn i aelodau;
- Gallai dileu 'arall' fel opsiwn ar gyfer gadael ddarbwylllo aelodau i roi rheswm mwy cywir dros adael y cynlluniau, ond cydnabuwyd nad oedd rhaid iddynt wneud hynny. Yn hytrach na dileu "arall", dylai Awdurdodau Tân ac Achub barhau i annog staff i lenwi'r ffurflen yn onest, a chynnwys sylwadau ychwanegol o dan "arall", lle y bo'n bosibl;
- Roedd y categori oedd yn dangos ymadawyr o fewn y tri mis cyntaf yn cynnwys dechreuwr newydd a chyflogeion presennol a oedd yn cael eu hailgofrestru o dan reolau ymuno'n awtomatig – byddai'n ddefnyddiol gwahaniaethu rhwng y rhain. Cadarnhaodd Awdurdodau Tân ac Achub fod hyn yn bosibl.
- Roedd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru'n darparu nifer o gontractau amser cyflawn dros dro i aelodau ar alwad. Ymddengys fod y swydd dros dro yn ffactor oedd yn cyfrannu at aelodau'n dewis gadael y cynllun.

PWYNT GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i gomisiynu Awdurdodau Tân ac Achub i roi dadansoddiad yn y data gadael i wahaniaethu rhwng dechreuwr newydd a chyflogeion presennol.

5. EITEM 5 YR AGENDA – ISAFSWM PENSIWN GWARANTEDIG

- 5.1 Roedd [ymateb](#) Trysorlys EM i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2017 ar drefniadau mynegeo a chydraddoli'r isafswm pensiwn gwarantedig wedi'i ddarparu i'r aelodau. Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad, dyddiedig Ionawr 2018, yn dangos bod y trefniadau interim i'r rhai a gyrrhaeddodd oedran pensiwn y wladwriaeth rhwng 5 Ebrill 2016 a 6 Rhagfyr 2018 wedi'u hymestyn tan fis Ebrill 2021. Hefyd, amlinellodd y byddai Trysorlys EM yn ystyried ymhellach opsiwn trosi ar gyfer y tymor hwy.
- 5.2 Roedd Trysorlys EM wedi cysylltu â phob cynllun pensiwn i geisio barn gychwynnol gan reolwyr a gweinyddwyr cynlluniau ar oblygiadau trosi, o safbwynt y baich ariannol, gweinyddol a deddfwriaethol. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth gan yr Awdurdodau Tân ac Achub i'w rhannu gyda Thrysorlys EM. Roedd yr adborth hyd yn hyn wedi bod yn brin serch hynny, oherwydd diffyg gwybodaeth fanwl gan Drysorlys EM ar y model yr oedd yn ei ystyried.
- 5.3 Er nad oedd hwn yn fater wedi'i ddatganoli, roedd yn debygol y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddiwygio rheoliadau cynlluniau i adlewyrchu penderfyniad terfynol Trysorlys EM. Nodwyd y byddai gweithredu hyn yn debygol o osod baich gweinyddol ar weinyddwyr cynlluniau ar yr un pryd â gweithredu newidiadau arwyddocaol eraill i gynlluniau.

6. EITEM 6 YR AGENDA – DIWEDDARIADAU GAN FYRDDAU PENSIWN (FPSABW(19)05)

- 6.1 Cyfeiriodd MP at sesiwn hyfforddiant i Fyrddau Pensiwn Lleol Cymru gyfan, a gyflwynwyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol ar 25 Mehefin. Roedd y sesiwn wedi pwysleisio pwysigrwydd cadw cofnodion, mesur data a sgorio data, yn unol â gofynion y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

- 6.2 Dywedodd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru fod gweinyddwr y cynllun wedi rhoi diweddariad ar ddata yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Pensiwn Lleol. Byddai'r diweddariad yn parhau i gael ei roi yn y dyfodol. Roedd cyfarfod nesaf y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei gynnal ar 8 Gorffennaf 2019.

Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

- 6.3 Cyfeiriwyd at anhawster cael cynrychiolaeth cyflogwr a chyflogeion ar y Bwrdd Pensiwn Lleol. Roedd hyn wedi achosi pryder penodol o ran cael cworwm, pe bai'r angen am bleidleisio yn codi.
- 6.4 Diolchodd MP i'r Awdurdodau Tân ac Achub am eu diweddariadau ac awgrymodd bod gwybodaeth am sgorio data'n cael ei darparu fel rhan o'r adborth yng nghyfarfodydd SABW yn y dyfodol. Hefyd, gofynnwyd i'r

Awdurdodau Tân ac Achub ddarparu cylch gorchwyl eu Byrddau Pensiwn Lleol unigol.

PWYNT GWEITHREDU: Awdurdodau Tân ac Achub i gynnwys gwybodaeth am sgorio data a darparu cylch gorchwyl Byrddau Pensiwn Lleol unigol fel rhan o ddiweddariadau i SABW yn y dyfodol.

6.5 Gofynnwyd i aelodau ystyried p'un a fyddai'n fuddiol cynnal cyfarfod ar y cyd o'r Byrddau Pensiwn Lleol unigol; roedd cyfarfodydd ar y cyd Fyrddau Pensiwn Lleol Swydd Gaerlŷr, Swydd Nottingham a Swydd Derby yn enghraifft. Awgrymwyd y gellid ei gynnal yn flynyddol yn ychwanegol at gyfarfodydd unigol y Byrddau Pensiwn Lleol neu fel cyfarfod ar wahân SABW a Byrddau Pensiwn Lleol ar y cyd, a fyddai'n cynnwys cyfarfod a sesiwn hyfforddiant. Nodwyd bod pryderon wedi'u codi bod cyfarfodydd Byrddau Pensiwn Lleol ar y cyd yn cael eu defnyddio i guddio tanberfformiad.

Taliadau Ymadael

6.6 Yn absenoldeb Clair Alcock, rhoddodd Kerry Citric ddiweddariad ar oblygiadau ymgynghoriad y llywodraeth ar gyflwyno cap ar daliadau ymadael. Dywedwyd wrth aelodau fod hyn yn fater i'r gwasanaeth cyhoeddus yn ehangach ac nad oedd o reidrwydd yn fater i SABW.

6.7 Y cap a osodwyd ar daliadau ymadael oedd £95,000. Fe wnaeth rheoliadau drafft Trysorlys EM eithrio dau daliad gan y cyflogwr yn gysylltiedig â chynlluniau pensiwn diffoddwyr tân – fe wnaeth Rheoliad 7 eithrio cymudiad uwch cynllun 1992 ac ymddeoliad cynnar wedi'i gychwyn gan yr awdurdod dan gynlluniau 2006 a 2015. Roedd yr eithriad o ran ymddeoliadau wedi'u cychwyn gan yr awdurdod o fewn cynlluniau yn Lloegr wedi'i gyfyngu i resymau ffitrwydd yn gysylltiedig â'u Fframwaith Cenedlaethol, ond ni ellid ychwanegu'r un cyfyngiad at y rheoliadau ar gyfer cynlluniau Cymru gan nad oedd Fframwaith Cenedlaethol Cymru'n cynnwys yr un wybodaeth. Fodd bynnag, roedd swyddogion wedi siarad â Phrif Swyddogion Tân i'w gwneud hi'n glir mai'r un oedd y bwriad, ac yr ystyrid darparu canllawiau i Awdurdodau Tân ac Achub Cymru i gadarnhau hyn pan fyddai'r rheoliadau wedi'u llunio'n derfynol.

6.8 Nid yw'n fater i'r SAB, ond dywedwyd wrth aelodau y dylai'r cyfeiriad at bwerau Awdurdodau Tân ac Achub i lacio cyfyngiadau ar daliadau ymadael yn rheoliad adlewyrchu'n glir fod hyn yn berthnasol i Awdurdodau Tân ac Achub yn Lloegr yn unig. Roedd Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn dod o dan 11 (a), a oedd yn amlinellu pa eithriadau i Awdurdodau datganoledig Cymru y gellid eu harfer gan Weinidogion Cymru.

6.9 Roedd yr ymgynghoriad wedi dod i ben ar 3 Gorffennaf.

Ymddeoliadau ar sail afiechyd

6.10 Dywedodd SS fod SABE wedi codi problem yn gysylltiedig ag ymddeol ar sail afiechyd o fewn y cynlluniau. Roedd rheoliadau 2015 yn datgan y dylid

ymdrin â hyn ar ffurf taliad afiechyd ‘un gronfa’ ac, felly, byddai aelod a symudwyd i gynllun 2015 naill ai o gynllun 1992 neu o gynllun 2006 yn cael ei ystyried ar gyfer ymddeol ar sail afiechyd o dan reolau cynllun 2015 yn unig. Roedd hyn wedi achosi cymhlethdodau oherwydd y gwahaniaeth yn yr Oedran Pensiwn Arferol rhwng y cynlluniau. Roedd SABE yn ymgymryd â gwaith i fynd i'r afael â nifer o faterion a amlygwyd gyda'r tystysgrifau a ddefnyddir ar gyfer pob un o'r cynlluniau.

PWYNT GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i fynd ar drywydd materion ymddeol ar sail afiechyd gyda Clair Alcock.

7. EITEM 7 YR AGENDA – DIWYGIADAU I GYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

7.1 Rhoddodd yr Ysgrifenyddiaeth ddiweddiariad ar ddiwygiadau i'r cynllun. Roedd gwaith drafftio bellach yn mynd rhagddo a bwriedid cynnal ymgynghoriad ar newidiadau yn gysylltiedig â Walker, McLaughlin a diwygiadau eraill i'r cynllun yn ystod yr hydref:

- **Walker (hawl partneriaid o'r un rhyw sydd mewn profedigaeth i gael buddiannau llawn goroeswr)** – Roedd Llywodraeth Cymru wedi dechrau drafftio'r diwygiadau perthnasol yn gysylltiedig â Walker. Tybiwyd y byddai'r dyfarniad yn effeithio ar nifer fach iawn o bobl. Roedd y Swyddfa Gartref eisoes wedi cyflwyno'r diwygiadau yn gysylltiedig â Chynlluniau Lloegr.
- **McLaughlin (gwahaniaethu rhwng plant rhieni priod a dibriod o ran cymhwysedd am fuddiannau)** - Roedd yr achos yn ymwneud yn bennaf â budd-daliadau nawdd cymdeithasol yn hytrach na buddiannau pensiwn. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod achos dros gydberthynas â Chynllun lawndal 2007 ac, felly, roedd yn drafftio diwygiadau i ymgynghori arnynt.
- **Diwygiadau eraill** – Roedd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau ymarfer cymharu diwygiadau diweddar a gyflwynwyd gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth yr Alban i amlygu p'un a oedd angen i unrhyw newidiadau o'r fath gael eu hadlewyrchu yng nghynlluniau Cymru. Byddai'r rhain hefyd yn cael eu cynnwys yn ymgynghoriad yr hydref.

7.2 Yn y cyfarfod diwethaf, cafodd SABW wybod bod dyfarniad Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd ar yr hawl pensiwn cyn 2000 wedi'i gyfeirio'n ôl i'r Goruchaf Lys. Roedd Llywodraeth Cymru'n aros am y dyfarniad terfynol cyn gweithredu ymhellach, ond roedd swyddogion wedi trafod goblygiadau O'Brien gyda Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru ac roedd trafodaeth gynnar wedi'i chynnal gyda'r Swyddfa Gartref. O ystyried cymhlethdod posibl datrysiad a'r cyfyngiadau ar ddata'r Awdurdodau Tân ac Achub eu hunain, roedd unrhyw gamau i weithredu'r dyfarniad ar gyfer diffoddwyr tân RDS yn debygol o osod baich sylweddol ar reolwyr a gweinyddwyr y cynllun.

7.3 Cododd MP bryderon fod diwygiadau'n aml yn cael eu gweithredu'n gynt yng nghynlluniau Lloegr. Nododd SABW fod adnoddau cyfreithiol prin Llywodraeth Cymru'n golygu blaenoriaethu diwygiadau i'r cynlluniau yng nghyd-destun gofynion drafftio deddfwriaethol ehangach eraill. Ystyriwyd effaith a risgiau unrhyw oedi cyn gweithredu newidiadau. Yn yr achos hwn, roedd nifer isel y bobl yr oedd achosion Walker a McLaughlin yn effeithio arnynt, os o gwbl, yn ffactor a oedd yn cyfrannu at ystyriaethau Llywodraeth Cymru.

8. EITEM 8 YR AGENDA – UNRHYW FUSNES ARALL

Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân: Gweithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol

- 8.1 Roedd yr eitem wedi'i gosod ar yr agenda yn sgil nifer o drafodaethau a gynhaliwyd yn yr Alban a Lloegr ynghylch proses apelïadau'r weithdrefn datrys anghydfod mewnol. Dywedwyd wrth aelodau fod Llywodraeth yr Alban wedi gweithredu newid ym mis Ebrill 2018, sef symud i broses un cam.
- 8.2 Roedd trafodaethau gan SABE wedi dangos eu bod yn dymuno cadw proses ac amseriadau presennol y weithdrefn datrys anghydfod mewnol. Serch hynny, codwyd cwestiynau ynghylch p'un a oedd gan aelodau etholedig y lefel ofynnol o arbenigedd a gwybodaeth am y rheoliadau pensiwn i wrando ail gam y broses yn briodol. Byddai gweithgor yn cael ei sefydlu i ystyried y broses ymhellach ac i adolygu'r canllawiau presennol ar Weithdrefnau Datrys Anghydfod Mewnol.
- 8.3 Y farn gref ymhlith aelodau SABW oedd cynnal proses ac amseriadau presennol y weithdrefn datrys anghydfod mewnol. Nododd aelodau fod proses bresennol y weithdrefn datrys anghydfod mewnol yn rhoi digon o amser i aelodau wedi ymddeol sylweddoli bod rhywbeth yn broblem a chychwyn y weithdrefn. Hefyd, roedd yr amserlenni'n caniatáu digon o amser i ystyried achosion cymhleth ac roedd yn cyfyngu ar nifer yr achosion a gyfeirir at yr Ombwdsmon Pensiynau.
- 8.4 Dywedodd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru fod ganddo achos yn mynd rhagddo o dan y weithdrefn datrys anghydfod mewnol yn gysylltiedig â Dyfarniad B5C ynghylch trin cyflog dyrchafiad dros dro fel Buddiannau Pensiwn Ychwanegol. Nid oedd unrhyw achosion yn mynd rhagddynt yn Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.
- 8.5 Byddai Llywodraeth Cymru'n monitro gwaith SABE yn gysylltiedig â phroses y weithdrefn datrys anghydfod mewnol ac yn darparu unrhyw ganllawiau diwygiedig i SABW, er ystyriaeth a chytundeb yr aelodau.

PWYNT GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i fonitro gwaith SABE yn gysylltiedig â phroses y weithdrefn datrys anghydfod mewnol a darparu unrhyw ganllawiau diwygiedig i SABW er ystyriaeth a chytundeb yr aelodau.

Dangosfwrdd Pensiynau

- 8.6 Roedd aelodau wedi cael copi o [ymateb](#) Llywodraeth y DU i'r ymgynghoriad ar ddatblygiad y dangosfwrdd pensiynau. Dywedodd yr ysgrifenyddiaeth fod Grŵp Cyflawni'r Diwydiant wedi'i sefydlu i ganolbwyntio ar Gyflawni'r Dangosfwrdd. Byddai'r Grŵp yn ymgysylltu â chynlluniau i lywio gosodiadau safonau data. Disgwylwyd na fyddai'r gofynion gwybodaeth yn fwy na'r hyn sydd eisoes wedi'i gynnwys mewn Datganiadau Buddiannau Blynyddol.
- 8.7 Dywedwyd wrth aelodau y byddai'r dangosfwrdd yn ofyniad statudol. Roedd disgwyl y byddai mwyafrif y cynlluniau wedi'u cynnwys yn llawn o fewn cyfnod o 3 i 4 blynedd.

Trefniadau Trosiannol Pensiynau

- 8.8 Dywedwyd wrth aelodau fod y Goruchaf Lys wedi gwrthod caniatâd i apelio yn erbyn dyfarniad y Llys Apêl ar amddiffyniad trosiannol pensiynau diffoddwyr tân ([McCloud](#) a [Sargeant](#)) ac, felly, byddai'r achos yn cael ei gyfeirio'n ôl at y Tribiwnlys Cyflogaeth ar gyfer rhwymedi. Roedd y broses i'w dilyn nawr yn fater i bartïon yr achos ac nid oedd yr amseriadau'n glir eto.
- 8.9 Roedd Undeb y Brigadau Tân yn bwriadu cyfarfod â'i chynrychiolwyr cyfreithiol i drafod rhwymedi posibl. Roedd cyfle i'r partïon cysylltiedig ddod i gytundeb ar rwymedi cyn gwrandawriad Tribiwnlys Cyflogaeth.
- 8.10 Roedd rhwymedigaeth ddigwyddiadol wedi'i hamlygu yng Nghyfrifon Llywodraeth Cymru o ran rhwymedi i ddiffoddwyr tân. Dywedodd Chris Barton fod archwilwyr allanol Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi dweud na fyddai rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn ddigon i Awdurdodau Tân ac Achub ac roedd trafodaethau'n parhau ynghylch y datgeliad angenrheidiol.
- 8.11 Nododd SABW fod y dyfarniad wedi arwain at ohirio cap costau pensiynau sector cyhoeddus yn gynt eleni a chydabu y gallai'r dyfarniad gael goblygiadau ehangach i gynlluniau pensiwn eraill y sector cyhoeddus.
- 8.12 Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

Cyfarfodydd yn y Dyfodol

- 8.13 Oherwydd bod yr anawsterau â'r dechnoleg wedi atal pob aelod rhag bod yn bresennol, awgrymodd MP y dylai cyfarfodydd yn y dyfodol gael eu cynnal yng Ngorsaf Dân y Drenewydd neu yn Llandrindod fel y gallai cynrychiolwyr o Ogledd Cymru fynychu'n bersonol. Cytunodd aelodau â'r cam hwn. Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Hydref.

PWYNT GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i holi pryd bydd aelodau ar gael a chadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf.